Atodiad 2 Rheolau'r Ffordd Fawr

Mae arweiniad y Llywodraeth[1] ar Reolau'r Ffordd Fawr yn nodi:

"Mae'n bwysig bod holl ddefnyddwyr y ffordd yn gwybod y Rheolau ac yn ystyriol o'i gilydd. Mae hyn yn berthnasol i gerddwyr i'r un graddau â gyrwyr a marchogwyr."; "Mae llawer o'r rheolau yn y Cod yn ofynion cyfreithiol, ac os byddwch yn anufuddhau i'r rheolau hyn rydych yn cyflawni trosedd."; "Er na fydd peidio cydymffurfio â'r rheolau eraill, ynddo'i hun, yn achosi i berson gael ei erlyn, gellir defnyddio Rheolau'r Ffordd Fawr fel tystiolaeth mewn unrhyw achos llys dan y Deddfau Traffig. Mae hyn yn cynnwys rheolau sy'n defnyddio geiriad sy'n cynghori fel 'dylai/ni ddylai' neu '**gwnewch/peidiwch'**.; "Gallai gwybod a defnyddio'r rheolau yn Rheolau'r Ffordd Fawr leihau anafiadau ar y ffyrdd yn sylweddol. Mae torri'r nifer marwolaethau ac anafiadau ar ein ffyrdd bob dydd yn gyfrifoldeb arnom i gyd. Gall Reolau'r Ffordd Fawr ein helpu i gyflawni ein cyfrifoldeb."

Mae Rheol 56[2] Rheolau'r Ffordd Fawr yn nodi:

"Cŵn: Peidiwch â gadael i gi fynd allan i'r ffordd ar ei ben ei hun. Cadwch y ci ar dennyn byr wrth gerdded ar y palmant, ffordd neu lwybr sy'n cael ei rannu â beicwyr neu farchogwyr."

[1] https://www.gov.uk/guidance/the-highway-code/introduction
[2] https://www.gov.uk/guidance/the-highway-code/rules-about-animals-47-to-58